# JONES, WILLIAM (1857 - 1915), aelod seneddol



**Enw:** William Jones
**Dyddiad geni:** 1857
**Dyddiad marw:** 1915
**Rhiant:** Alice Jones
**Rhiant:** Richard Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** aelod seneddol
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Thomas Richards

Aelod seneddol dros ranbarth Arfon (1895-1915). Ganwyd yn 1857 yn y Ceint Bach ger Llangefni; enwau ei rieni oedd Richard ac Alice Jones. Disgybl, ac wedyn disgybl-athro, yn y ' British School ' yno; yn y Coleg Normal, Bangor, 1873-5, yr un pryd â'r Dr. J. Lloyd Williams. Am dymor, prifathro ysgol Goginan yng ngogledd Ceredigion; o 1879 hyd 1888 is-athro yn ysgol Wallington Road yng ngogledd Llundain. Yr oedd yn aelod yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Holloway, ond yn 1887 cafodd ei ddiarddel am swcro golygiadau rhy fodern ar y *Beibl* (yn yr ysgol Sul). O 1888 i 1894 Rhydychen oedd ei gartref, a gweithredai yno (yn ôl pob tebyg) fel athro answyddogol i rai o fyfyrwyr y brifysgol. Yn ystod ei fyw yn Llundain ymddiddorai mewn politics, fel Rhyddfrydwr, a daeth yn un o'r siaradwyr mwyaf huawdl, yn Gymraeg a Saesneg, drwy'r holl wlad. Ni ddewiswyd ef yn ymgeisydd Rhyddfrydol dros sir Fôn, er bod iddo bleidwyr hyderus; yn 1894 dewiswyd ef, gyda mwyafrif mawr, yn ymgeisydd dros Arfon; yn etholiad cyffredinol 1895 aeth i'r Senedd gyda rhwyddineb. Daeth yn fuan yn un o siaradwyr mwyaf parod T  r Cyffredin, a thraddododd areithiau effeithiol ar yr anghydfod poenus yn chwarel Bethesda (1900-3), ac ar gwestiwn mawr y Datgysylltiad (yn 1912 a 1914 yn enwedig). Yn y wlad, ei gyfraniad mwyaf sylweddol oedd ei areithiau yng nghwrs dwy lecsiwn fawr 1910. Y flwyddyn nesaf wele ef yn un o'r 'Junior Lords of the Treasury,' un o'r 'Whips' mewn gwirionedd i ofalu am fuddiannau Cymru a chadw golwg ar yr aelodau Cymreig. Cedwir 21 gyfrol o'i bapurau personol yn llyfrgell Coleg y Gogledd. O ddarllen y cyfrolau hyn, gwelir pa mor brysur yw bywyd aelod seneddol, pa mor eang oedd cylch cyfeillion William Jones, pa mor ddwfn ei gydymdeimlad â delfrydau uchel, a pha mor bell y llwyddodd i ddwyn y delfrydau hynny o fewn cyrraedd y bywyd cyffredin. Yr oedd William Jones yn bersonoliaeth gu, garuaidd, lawn caredigrwydd a natur dda, ac yn wleidyddwr gyda'r mwyaf unplyg yn ei oes. Bu farw ym Mhendyffryn, Bangor, 9 Mai 1915.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


*Y Goleuad*, 1887 (Gorffennaf-Awst)

*Bangor Normal College for the training of teachers for British schools in Wales Report*, 1875-6

*Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor* (U.C.N.W.) 1124 (135-69), 5446-86

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xvi, 80-7

J. Lloyd Williams, *Atgofion tri chwarter canrif*, iv, 25-7

*Y Goleuad*, 14 Mai 1915

*Y Clorianydd*, 19 Mai 1915

*Y Geninen* (G  yl Dewi), 1917, 173

## Darllen Pellach

Archifau LlGC: General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: William Jones

Archifau LlGC: Trech Gwlad nag Arglwydd. Yr Arglwyddi yn Erbyn y Bobl. Etholiad Cyffredinol, 1910. Bwrdeisdrefi a Dosbarth Arfon.

Erthygl Wicipedia: William Jones

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8013725

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu